**(HCC 863)**

**Cofnodion o gyfarfod Cyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru (HCC) a gynhaliwyd am 10.30am Yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth ddydd Iau 10 Ionawr 2019**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | Kevin Roberts (Cadeirydd)<br>Gareth Wynn Davies, Huw Davies, John Davies, Helen Howells, Barrie Jones, Rachael Madeley Davies, Catherine Smith, Claire Williams ac Ogwen Williams |
| **Trwy Wahoddiad:** | Meilir Ceredig (Four Engage) – Eitem 2<br>Amy Rodricks (Four Engage) – Eitem 2<br>Gareth Wilson (Llywodraeth Cymru) |
| **Y Weithrediaeth a oedd yno:** | Gwyn Howells (Prif Weithredwr)<br>Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Kirsten Hughes, Swyddog Gweithredol Cig Coch (Eitemau 8a,8b & 9) |
| **Y Tîm rheoli:** | Rhys Llywelyn (Rheolwr Datblygu'r Farchnad)<br>Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)<br>John Richards (Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant)<br>Owen Roberts (Rheolwr Cyfathrebu) |

1. **Sylwadau gan y Cadeirydd**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu oddi ar y cyfarfod blaenorol o'r Bwrdd: -

13 Tachwedd 2018 – Cynhaliwyd yr olaf o gyfarfodydd gwerthuso'r Bwrdd gan y Cadeirydd ac Alison Wright gydag Illtud Dunsford (ID) yn cymryd rhan trwy gyfrwng Skype.

22 Tachwedd 2018 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Grŵp Ymgynghorol UE y Prif Weinidog lle parhaodd y drafodaeth ynghylch cynllunio wrth gefn ar gyfer y cyfnod ôl-Brexit.

29 Tachwedd 2018 – Bu'r Cadeirydd mewn cyfarfod o Ford Gron Rhanddeiliad Brexit y Gweinidog.

12 Rhagfyr 2018 – Bu'r Cadeirydd yn annerch cyfarfod a drefnwyd gan Gymdeithas Tir Glas Gwy.

Yn dilyn diweddariad y Cadeirydd, bu trafod ynghylch y datblygiadau newydd yn ymwneud â Brexit.

2. **I dderbyn cyflwyniad gan Four Engage am fethodoleg Mapper 360 a ddefnyddir ar gyfer ymgyrchoedd defnyddwyr HCC i dargedu cynulleidfaoedd penodol ar gyfer marchnata digidol**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Meilir Ceredig ac Amy Rodricks a oedd yn bresennol i roi cyflwyniad am yr uchod.

Byddai canlyniadau'r gweithgarwch hwn yn cael ei werthuso cyn cael eu defnyddio gan yr adran Datblygu'r Farchnad i gynllunio ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Cafodd defnydd HCC o'r dechnoleg dderbyniad da gan y Bwrdd a theimlwyd y gellid ystyried y canlyniadau fel pwnc ar gyfer cynhadledd HCC 2019 er mwyn trosglwyddo negeseuon positif i randdeiliaid.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Illtud Dunsford

4. **Datganiadau o Fuddiannau**

Mynegodd aelod o'r Bwrdd, John Davies, ddatganiad o fuddiannau mewn trafodaeth a fyddai'n digwydd ynghylch cynhadledd flynyddol HCC a'r Ffair Aeaf oherwydd ei gysylltiad â Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru Cyf.

5. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Tachwedd 2018 (HCC 852)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Mercher 7 Tachwedd 2018 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

6. **Materion yn codi**

*EIDCymru – System olrhain amlrywogaeth i Gymru*

Nodwyd bod y Gweinidog, ym mis Rhagfyr 2018, wedi cyhoeddi penderfyniad i ddatblygu'r system olrhain amlrywogaeth gyntaf i Gymru. Câi ei chyfuno â'r system bresennol a defnyddir gan EIDCymru.

Nod Llywodraeth Cymru oedd datblygu system amlrywogaeth ar gyfer gwartheg, defaid a moch.

Byddai'r gwaith yn cael ei wneud gan EIDCymru a Llywodraeth Cymru yn ystod y misoedd nesaf a byddai'r Bwrdd yn cael clywed am ddatblygiadau.

*Cais am Sylwadau o’r Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)*

Nodwyd bod ymatebion i’r uchod yn cael eu gwerthuso ar hyn o bryd gan Defra. Fodd bynnag, cafwyd ar ddeall fod y gwaith o baratoi ar gyfer Brexit yn cael blaenoriaeth dros adolygiad AHDB ac felly gellid disgwyl oedi.

Roedd y mater o unrhyw newidiadau yn yr Ardoll Statudol ar gig coch yn Lloegr a allai ddigwydd fel canlyniad i adolygiad AHDB a’i ganlyniadau / effaith ar Gymru wedi cael ei gynnwys yng Nghofrestr Risg HCC.

*Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru a Chostau Adennill 2019 / 2020*

Dywedodd y Prif Weithredwr fod Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo argymhelliad y Bwrdd y dylai Cyfraddau a Chostau Adennill yr Ardoll 2019 / 2020 barhau fel a ganlyn:-

| **Cyfraddau Ardoll Cig Coch Cymru ar gyfer 2019 / 2020** | | | |
|---|---|---|---|
| *(y pen)* | **Cyfanswm, y Casgliad Ardoll** | **Cyfanswm wedi’i Dalu gan y Cynhyrchwr** | **Cyfanswm wedi’i Dalu gan y Lladd-dy/Allforiwr** |
| **Defaid** | £ 0.83 | £ 0.63 | £ 0.20 |
| **Gwartheg** | £ 5.67 | £ 4.34 | £ 1.33 |
| **Lloi** (hyd at 68kg) | £ 0.17 | £ 0.085 | £ 0.085 |
| A r **Moch** | £ 1.30 | £ 1.05 | £ 0.25 |

| **Costau Adennill Ardoll ar gyfer 2019 / 2020** | |
|---|---|
| **Rhywogaeth** | **Ardoll wedi’i Hadennill (y pen)** |
| Defaid | £0.010 |
| Gwartheg | £0.030 |
| Moch | £0.013 |

## 7. **Adroddiadau HCC**

*a. Adroddiad Gweithgareddau (HCC 853)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi’i ddarllen.

***Datblygu’r Farchnad***

Tynnodd y Rheolwr Datblygu'r Farchnad sylw at y newyddion da y byddai Siapan yn codi’r gwaharddiadau ar fewnforio cig eidion a chig oen o’r DG.

Nodwyd y byddai HCC yn rhannu lle ag AHDB a Quality Meat Scotland (QMS) yn Ffair Foodex, Tokyo ar 5 – 8 Mawrth 2019. Byddai allforwyr yn cael eu gwahodd i ymuno â HCC yn yr arddangosfa er mwyn gwneud cysylltiadau newydd a chwilio am gyfleoedd marchnata newydd.

Nodwyd y gwnaed ymchwil i'r farchnad Halal, gan ddefnyddio Cyllid a gafodd ei glustnodi. Roedd yr ymchwil yn ymwneud â bwyta y tu allan i'r cartref, mannau ar gyfer twf a dewis Mwslimiaid ynghylch stynio neu ddim stynio wrth ladd. Câi'r canfyddiadau cychwynnol eu dosbarthu maes o law.

Hefyd, roedd HCC wedi cyfarfod â chynrychiolwyr o RACS (corff ardystio Halal) er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o broblemau masnachu yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.

***<u>Datblygu'r Diwydiant</u>***

*<u>Rhaglen Datblygu Cig Coch</u>*

Rhoddwyd diweddariad ynglŷn â'r uchod:-

- Yn dilyn ymarferion caffael yn ddiweddar, cafodd cwmnïau eu penodi i ddarparu a) gwerthusiad o'r rhaglen, b) Y Cynllun Hyrddod Mynydd / Arbenigedd Technegol mewn Geneteg Defaid a Strategaethau Bridio ac c) darparu Gwerthusiadau Genetig i gefnogi cyflwyno prosiect Hyrddod Mynydd yng Nghymru.

- Roedd gwahoddiad i dendro ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Gwasanaethau Milfeddygol (dyddiad cau 31 Ionawr 2019) a Storio Samplau Cig Wedi'u Rhewi (dyddiad cau 1 Chwefror 2019)

- Roedd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda chymdeithasau bridiau ac roedd trefniadau ar y gweill ar gyfer cynnal Sioe Deithiol Cynllun Hyrddod Mynydd mewn nifer o leoliadau yn ystod mis Chwefror 2019. Cafodd saith o ddiadelloedd arweiniol eu recriwtio am y flwyddyn gyntaf, gyda tharged o 35 o ddiadelloedd i gymryd rhan erbyn diwedd y prosiect.

*<u>Prosiect Meincnodi Cig Coch</u>*

Nodwyd bod y prosiect wedi dod i ben gyda 1,600 o ymatebwyr. Cafodd y broses ddilysu ei chwblhau, ac roedd galwadau dilynol yn cael eu gwneud ar hyn o bryd gan y Weithrediaeth er mwyn cywiro gwallau gan ffermwyr.

Y camau nesaf: Byddai'r data'n cael ei ddadansoddi a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru fel adroddiad cynhwysfawr a fyddai'n cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

*Y Sector Lladd a Phrosesu*

Dywedodd Rheolwr Datblygu a Chysylltiadau'r Diwydiant fod trefniadau ar y gweill ar gyfer cyfarfodydd rhanbarthol HCC a fyddai'n cael eu cynnal yng Ngholeg Pen-Coed, Pen-y-bont ar Ogwr (16 Chwefror 2019) ac yn Ystad Rhug, Corwen (16 Chwefror 2019)

Byddai'r cyfarfodydd yn gyfle i gynrychiolwyr o'r sector lladd a phrosesu ymgysylltu â HCC ar bynciau fel y dechnoleg olrhain newydd ar gyfer Cig Oen Cymru a gwaith yn ymwneud â brandio. Byddai'r siaradwyr yn cynnwys cynrychiolaeth o Gymdeithas y Cyflenwyr Cig Annibynnol (AIMS), yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ac Arloesi Bwyd Cymru.

Byddai Aelodau'r Bwrdd, sef Helen Howells (Pen-y-bont ar Ogwr) a Rachael Madeley Davies (Corwen) yn cadeirio'r cyfarfodydd.

Croesawyd yr uchod gan y Bwrdd o ran ymgysylltiad HCC â'r sector lladd a phrosesu, yn enwedig y busnesau bach a chanolig eu maint.

***Cyfathrebu***

Byddai'r uchod yn cael sylw o dan eitem agenda 10f, sydd ar wahân

*Ymweliad Cydymffurfiad HMRC*

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol fod HCC wedi cael ymweliad yn ddiweddar gan swyddogion HMRC i adolygu gweithdrefnau'r Cynllun Talu wrth Ennill (PAYE).

Un mater a godwyd gan HMRC oedd treuliau'r Bwrdd. Roedd HMRC yn ystyried bod Aelodau'r Bwrdd yn "swyddogion" y cwmni, h.y. bod HCC yn cael ei ystyried yn fan cyflogaeth parhaol y Bwrdd (cadarnhawyd hyn yn llythyr penodi'r Bwrdd gan Lywodraeth Cymru).

Esboniwyd bod Aelodau'r Bwrdd, fel "swyddogion", yn teithio'n rheolaidd i le penodol i ymgymryd â busnes (ystyrir taw'r lle hwnnw oedd y lle gweithio parhaol). Effaith hyn oedd y byddai unrhyw dreuliau a fyddai'n cael eu hawlio am deithio i'r lle hwnnw yn drethadwy yn ôl y gyfradd sylfaenol. Byddai Aelodau'r Bwrdd yn dal i allu derbyn treuliau am deithio i leoliadau eraill heb ddidynnu treth.

Nodwyd y byddai HMRC yn codi tâl am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2018 ond byddai angen i HCC weithredu'r polisi hwn ar gyfer y flwyddyn dreth gyfredol hon.

Byddai newidiadau i dreuliau Medi 2018 yn cael eu cyfuno â threuliau Mawrth 2019.

Roedd y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn fodlon derbyn unrhyw ymholiadau gan y Bwrdd ynghylch yr uchod y tu allan i'r cyfarfod.

*b.* *Crynodeb o Fwletin y Farchnad (HCC 854)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*c.* *Digwyddiadau i ddod (HCC 855)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

8. **Corfforaethol**

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol fod drafftiau o Gynllun Corfforaethol 2019/2022 a Chynllun Gweithredol 2019/2020 wedi cael eu llunio tra bod trafodaethau Brexit yn parhau ac felly gofynnwyd i'r Bwrdd dybio *status quo* o ran trefniadau masnach a pholisi am y tro. Byddai'r dogfennau'n cael eu hadolygu yn amodol ar ddatblygiadau Brexit.

a. I ystyried Cynllun Corfforaethol drafft HCC ar gyfer 2019 / 2022 (HCC 856)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen ac wedi'i gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Nodwyd adborth, a châi drafft diwygiedig ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w gymeradwyo yn y cyfarfod ar 27 Chwefror 2019.

b. I ystyried Cynllun Gweithredol drafft HCC ar gyfer 2019 / 2020 (HCC 857)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Gweithredol Cig Coch a chafodd sylwadau'r Bwrdd eu trafod a'u nodi.

Roedd angen i'r Cynllun drafft gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd yng nghyfarfod 27 Chwefror 2019 a châi ei rannu gydag is-adran noddwyr Llywodraeth Cymru er mwyn cael adborth wedi hynny.

Byddai drafft diwygiedig o'r Cynllun yn cael ei roi i'r Bwrdd cyn y cyfarfod nesaf, ynghyd â chrynodeb o'r newidiadau a wnaed yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd ar 10 Ionawr 2019 .

9. **I dderbyn a chymeradwyo'r Cynllun Gwaith i'r Bwrdd ar gyfer 2019 / 2020 (HCC 858)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei gyflwyno gan y Swyddog Cig Coch.

Cyflwynwyd copi diwygiedig er mwyn adlewyrchu'r newid yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata ar 11 Chwefror 2019.

Dywedodd y Prif Swyddog Gweithredol y byddai'n ddefnyddiol, lle bo hynny'n bosibl, cadw at ddyddiadau cyfarfodydd arfaethedig y Bwrdd a'r Pwyllgor er mwyn gallu dilyn a chyflawni'r Cynllun Gwaith mewn modd amserol.

Yn amodol ar y mân welliannau a nodwyd, mabwysiadwyd y Cynllun Gwaith gan y Bwrdd a byddai'n cael ei ail-ddosbarthu maes o law

Cynigiodd y Weithrediaeth y dylid crynhoi, cyhoeddi a chymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau gan y Bwrdd / Pwyllgorau ymhen tair neu bedair wythnos er mwyn gwella'r y broses bresennol.

Cytunwyd ar hyn gan y Bwrdd.

10. **Pwyllgorau HCC**

***Y Gweithgor Iechyd Diadelloedd a Buchesi (FHHWG)***

a. I fabwysiadu cofnodion cyfarfod FHHWG a gynhaliwyd ddydd Mercher 31 Hydref 2018 (HCC 859)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth (R&D&KE)***

b. I dderbyn adroddiad llafar o gyfarfod telegynadledda'r Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth a gynhaliwyd ddydd Mercher 5 Rhagfyr 2018

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

c. I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Ymchwil a Datblygu a Chyfnewid Gwybodaeth a gynhaliwyd ddydd Mawrth 2 Hydref 2018 (HCC 860)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata***

d. I dderbyn adroddiad llafar am y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Llun 10 Rhagfyr 2018

Cafwyd adroddiad llafar ar yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

e. I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Farchnata a gynhaliwyd ddydd Iau 5 Gorffennaf 2018 (HCC 861)

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

***Y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu***

f. I gael adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 10 Ionawr 2019

Cafwyd adroddiad llafar am yr uchod gan Gadeirydd y Pwyllgor.

g. <u>I fabwysiadu'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynghori ar Gyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Iau 13 Medi 2018 (HCC 862)</u>

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei fabwysiadu gan y Bwrdd.

11. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

*<u>Gareth Wilson</u>*

Ar ran y Bwrdd, dymunodd y Cadeirydd yn dda i Gareth Wilson yn ei swydd newydd gyda'r adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) a diolchodd iddo am ei gefnogaeth i HCC pan fu'n gweithio i Lywodraeth Cymru.

*<u>Cael Gwared ar y Clafr</u>*

Croesawodd y Bwrdd y cyhoeddiad gan y Gweinidog am £5m o gyllid gan y Llywodraeth ar gyfer prosiect dan arweiniad y diwydiant i fynd i'r afael â dileu'r clafr yng Nghymru.

*<u>Grŵp HCC ar gyfer Ymgysylltu â'r Diwydiant</u>*

Roedd y Gweinidog wedi cytuno i ddod â gwaith Pwyllgor Monitro'r Cynllun Gweithredu Strategol (SAP) i ben am fod y ddogfen Gweledigaeth 2025 a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi disodli'r ddogfen flaenorol.

Yng nghyfarfod olaf SAP, mynegodd yr Undebau Ffermio awydd i barhau i fod yn rhan o adolygu a monitro strategaeth Gweledigaeth 2025.

Cytunwyd ar hyn ac er mwyn hwyluso'r broses, cynhelid cyfarfod sefydlu cychwynnol gyda chynrychiolwyr o'r diwydiant i drafod y strwythur a'r aelodaeth briodol ar gyfer y Grŵp hwn. Roedd trefniadau ar y gweill i gynnal y cyfarfod cyntaf yn ystod mis Chwefror 2019.

<u>*B*wrdd HCC - Cyfrinachedd, Gwrthdaro Buddiannau a Datgelu Gwrth-Lwgrwobrwyo</u>

Cyflwynwyd llythyrau i'r Bwrdd ynghylch yr uchod.

Gofynnwyd i'r Bwrdd lenwi'r rhan berthnasol o'r llythyr a'i ddychwelyd at y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol yn yr amlen a ddarparwyd.

12. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>** – Dydd Mercher 27 Chwefror 2019.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**